**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

11 Tachwedd 2020

Annwyl John a chydweithwyr pwyllgor,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref mewn ymateb i'r dystiolaeth a gyflwynais i'r Pwyllgor ar 12 Hydref.

Rydych wedi gofyn am eglurhad pellach ynghylch tri phwynt:

**1. Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau**

Mae eich llythyr yn nodi pryder nad yw'n ymddangos bod adroddiad **Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau** yn ymdrin â'r rôl y gall pobl hŷn ei chwarae yn yr adferiad. Gofynnwch ai amryfusedd gan y Llywodraeth sydd i gyfrif am hyn ynteu nad oedd cylch gwaith yr adroddiad yn cynnwys y mater.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad clir i gynnal a diogelu hawliau holl bobl hŷn Cymru. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ac Age Cymru i fonitro ei effaith ar hawliau pobl hŷn ac i gymryd camau priodol.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn parhau i gynnal cyfarfodydd wythnosol gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae sgyrsiau diweddar wedi canolbwyntio ar hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cyfarfod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i drafod dull Llywodraeth Cymru o ddiogelu hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fel y gellir dysgu gwersi a chryfhau hawliau pobl hŷn ymhellach.

Rydym yn cymryd camau i sefydlu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau ymarferol cyn bo hir ar sut y gall awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy’n Heneiddio yr hydref hwn. Bydd y Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n ystyriol o oedran sy'n cynnal hawliau pobl hŷn, yn herio stereoteipiau ac yn hyrwyddo undod rhwng cenedlaethau.

Yn ddiweddar, cymerodd aelodau o Fforwm Cynghori’r Gweinidog ar Heneiddio ran mewn trafodaeth gyda'r Athro Simon Hoffman sy'n arwain ar hyn o bryd ar waith ymchwil pwysig sy'n canolbwyntio ar opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.  Rwy'n hyderus y bydd y fforwm hwn, y mae ei aelodaeth yn cynnwys pobl hŷn, academyddion blaenllaw, a chynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau, yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o fonitro a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

Mae Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd Cynghrair Henoed Cymru, Victoria Lloyd, mewn ymateb i'r pryderon a gododd ynghylch diffyg cyfeiriad penodol at bobl hŷn yn adroddiad **Ail-greu ar ôl Covid-19: yr heriau a’r blaenoriaethau.**

Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod y cyfraniad aruthrol y mae pobl hŷn yn ei wneud i fywyd yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol iawn o effaith Coronafeirws ar bobl hŷn ac rydym wedi gweithredu o'r cychwyn cyntaf i liniaru'r effaith honno ac i gadw pobl hŷn yn ddiogel, yn ogystal â chydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae llawer o bobl hŷn wedi'i wneud i'r ymateb i’r Coronafeirws, a'n bod, fel llywodraeth, yn bwriadu parhau i wneud hynny.

Er y nodir nad yw'r anawsterau y mae pobl hŷn wedi'u hwynebu o ganlyniad i’r Coronafeirws yn cael eu crybwyll yn benodol yn y ddogfen, mae grwpiau eraill mewn cymdeithas na chyfeirir atynt yn benodol yn y ddogfen hefyd. Rydym yn dal i ddweud yn glir nad enwi grŵp yw'r peth pwysicaf, ond, yn hytrach, y camau sylweddol yr ydym yn eu cymryd i gefnogi pobl hŷn.

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys:

- cymorth i weithwyr hŷn,
- y bobl hŷn hynny sydd bellaf o'r gweithlu,
- ein hymrwymiadau o ran dysgu gydol oes,
- y cymorth arfaethedig ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys trafnidiaeth ar alw),
- camau i wella tai ac i fynd i'r afael â thlodi tanwydd,
- cymorth i'r GIG ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn ymwneud â’r coronafeirws,
- cymorth i wasanaethau cyhoeddus eraill a'r trydydd sector,
- mentrau i fynd i'r afael ag allgau digidol, ac
- adfywio canol trefi gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol ynddynt.

Bydd pob un o'r rhain, ac amrywiaeth o ymyriadau eraill, yn cael effaith bwysig ar fywydau ein dinasyddion hŷn.

Mae ein dull gweithredu mewn perthynas ag ail-greu yn adlewyrchu popeth yr ydym wedi'i glywed gan yr amrywiol leisiau sydd wedi cymryd rhan yn ein prosesau ymgysylltu, gan gynnwys, yn bwysig iawn, pobl hŷn. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys canolbwyntio ar werthoedd cyfiawnder economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder amgylcheddol, sy'n llywio ein holl waith fel llywodraeth, ac sy'n gwella bywydau holl ddinasyddion Cymru.

## 2. Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus


Rydych wedi holi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd) yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae cyfrifoldeb rheoleiddio yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ond rwy'n cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â hyn a materion perthnasol eraill, fel y mae swyddogion yn y Gangen Gydraddoldeb.

Dechreuwyd adolygiad o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2020 ond cafodd y gwaith ei atal dros dro yn ystod misoedd cyntaf y pandemig Covid gan fod yn rhaid ailddyrannu adnoddau i waith arall ynghylch cydraddoldeb a hawliau dynol. Ataliwyd rhwymedigaethau adrodd ar y Ddyletswydd am chwe mis o fis Mawrth 2020 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gydnabod y baich gwaith a roddwyd i gyrff cyhoeddus yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi nawr i sut y gellir datblygu’r gwaith o adolygu’r Ddyletswydd dros y flwyddyn i ddod, gan adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i ddechrau o fewn Llywodraeth Cymru i wella'r broses o gasglu a chyhoeddi data cyflogaeth a chydraddoldebau eraill. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil parhaus ar sut i gryfhau a gwella cydraddoldebau a hawliau dynol yng Nghymru yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig ar gyfer y gwaith o adolygu’r Ddyletswydd dros y misoedd nesaf. Rhagwelir y bydd yr ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid sy'n digwydd yn taflu goleuni ar y ffordd orau o gryfhau Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru a gwella cydymffurfiaeth â'r Dyletswyddau yn eu crynswth. Bydd yr adroddiad wedi’i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2021.

**3. Cyllid cynaliadwy ar gyfer y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**

Yn dilyn fy ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r model ariannu cynaliadwy ar gyfer y sector VAWDASV, rwyf wedi cadarnhau gyda Yasmin Khan, Cadeirydd y Grŵp Ariannu Cynaliadwy, mai'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau Model Ariannu Cynaliadwy VAWDASV yw 31 Mawrth 2021. Bydd hyn yn dibynnu ar gytundeb aelodau'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip